

# BABY, BIRD AND BEE

# BABI, ADERYN A GWENYNEN

Presented by Theatr Iolo

# BABY, BIRD AND BEE

Created by Sarah Argent and Kevin Lewis

Come and sit with your baby whilst the new gardener playfully goes about their work, planting and watering, in the beautiful garden. As they work, they are delighted to be joined by a bird, a bee, and of course, the babies! Together you will discover the sights and sounds of the garden, as your little one delights in the wonders around them.

At the end of the show, there will be a chance for you and your baby to stay and play with some specially chosen objects.

The world-renowned Sarah Argent and Kevin Lewis have created many wonderful shows for babies and are experts on catching the attention of babies and toddlers and getting a giggle!

Baby, Bird & Bird is performed in English and Babi, Aderyn a Gwenynen is performed in Welsh. If you are learning Welsh or wish to learn some new Welsh words with your baby/babies, Babi, Aderyn a Gwenynen is perfect introduction to the language for little ones.

**Language:** Available in Welsh or English
**Age Restriction:** 6 – 18 months
**Running Time:** 45 mins (20-25 minutes show, 20 minutes 'stay and play')
**Suggested pricing:** £10 (includes 1 adult, 1 baby), £5 for additional adults or babies

Cyflwynir gan Theatr Iolo

# BABI, ADERYN A GWENYNEN

Crëwyd gan Sarah Argent a Kevin Lewis

Dewch i ymlacio gyda'ch babi tra bod y garddwr yn brysur wrth ei waith yn plannu hadau ac yn dyfrio'r ardd brydferth. Yn fuan bydd aderyn, gwenynen ac wrth gwrs y babanod yn gwmni hyfryd i'r garddwr hapus. Gyda'ch gilydd byddwch yn darganfod golygfeydd a synau'r ardd a bydd eich rhai bychain wrth eu boddau!

Ar ddiwedd y sioe bydd cyfle i chi a'ch babi aros i chwarae gyda gwrthrychau sydd wedi'u dewis yn arbennig.

Mae Sarah Argent a Kevin Lewis yn wneuthurwyr theatr arobryn sydd wedi creu nifer o sioeau hudolus ar gyfer babanod. Mae ganddynt ddawn arbennig o ddal sylw ac adlonni babanod a phlant ifanc.

Perfformir Baby, Bird & Bee yn Saesneg a pherfformir Babi, Aderyn a Gwenynen yn Gymraeg. Os ydych chi'n dysgu Cymraeg neu'n awyddus i ddysgu ambell i air Cymraeg newydd gyda'ch babi/babanod mae Babi, Aderyn a Gwenynen yn ffordd berffaith o gyflwyno'r iaith i rai bychain.

**Iaith:** Ar gael yn Gymraeg neu Saesneg
**Cyfyngiad Oedran:** 6 – 18 mis
**Hyd y perfformiad:** 45 munud (20-25 munud o sioe, 20 munud 'aros a chwarae')
**Prisiau a awgrymir:** £10 (yn cynnwys 1 oedolyn, 1 babi), £5 ar gyfer oedolion neu babanod ychwanegol



# Target Audience
# Cynulleidfa Darged

- First time parents of new babies
- Parents of more than one child, who are looking for a way to spend quality time with a new baby
- Existing arts attendees who are looking for their baby's first theatre experience
- People on parental / adoption leave looking for 'things to do' with their baby
- People looking for new ways to meet other parents
- Grandparents who are looking after their grandchildren
- Nursery settings who take care of young babies

- Pobl sy'n rhieni am y tro cyntaf i fabanod ifanc
- Rhieni sydd â mwy nag un plentyn ac sy'n chwilio am ffyrdd o dreulio amser arbennig gyda'u babi newydd
- Pobl sydd eisoes yn mynychu digwyddiadau celfyddydol ac sy'n chwilio am brofiad theatr cyntaf ar gyfer eu babi
- Pobl sydd ar gyfnod rhieniol / mabwysiadu, sy'n chwilio am 'bethau i'w gwneud' gyda'u babi
- Pobl sy'n chwilio am ffyrdd newydd o gyfarfod rhieni eraill
- Teidiau a neiniau sy'n gofalu am eu hwyrion
- Meithrinfeydd sy'n gofalu am fabanod ifanc



# Key Selling Points
# Pwyntiau Gwerthu Allweddol

- Gentle first theatre experience for the very young
- The show is very sensory, with opportunities to hear, see and touch different objects.
- The show is made especially for babies aged 6-18 months
- Babies (and adults) can choose to interact as much or as little as they feel comfortable
- The show offers an opportunity for adults to spend quality time with their baby/babies
- For performances in Welsh, a gentle introduction to the language and key words if you don’t speak Welsh at home.

- Profiad theatr cyntaf tyner i blant ifanc iawn
- Sioe synhwyraidd iawn, gyda chyfleoedd i glywed, gweld a chyffwrdd gwrthrychau gwahanol
- Mae’r sioe wedi’i chreu’n arbennig i fabanod 6-18 mis oed
- Gall fabanod (ac oedolion) gymryd rhan gymaint neu cyn lleied ag sy’n gyfforddus iddyn nhw
- Mae’r sioe’n cynnig cyfle i oedolion dreulio amser arbennig gyda’u babi/babanod
- Mae’r perfformiadau yn Gymraeg yn gyflwyniad ysgafn i’r iaith i’r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref



# BABY, BIRD AND BEE
# Frequently Asked Questions

## Can I bring a younger / older baby or sibling?

This show is suitable for babies aged 6-18 months only. This is because very young babies are too little to enjoy the performances, whilst older children can distract the babies. For this reason, and so that everyone can fully enjoy the performances, we place an age restriction on these performances.

This also means that older children (including siblings) will not be admitted to these performances. We hope that this also creates a special moment that you can share with just your baby/babies.

## Why does the show only last 20-25 minutes?

Sarah and Kevin have tested many performance lengths over the years and this is the perfect length for this age group. Baby's brains are still doing lots of learning and growing and they often need a rest or sleep after a sensory experience like Baby, Bird & Bee.

There will also be an opportunity to stay and play with the other families in the space following the show.

## What makes this baby show special?

Sarah Argent and Kevin Lewis have many years of experience creating baby shows together. They are world renowned for their special ability to create gentle, engaging shows for the very young. They have worked with scientists to discover what makes babies laugh and have developed special techniques to ensure that little ones stay engaged with the performance!

## What's the seating like?

We know babies of this age like lots of opportunities to wriggle, stretch, feed and crawl. For this reason, babies (and their adults!) are seated on large mats of the floor so they have plenty of room to wriggle.

We also keep audience numbers for our baby shows low, so that it doesn't become overwhelming, and everyone has plenty of space.

## I'm worried about how my baby will respond!

We encourage the babies to respond however they like - gurgling, laughing, commenting (if they've started talking!), or hiccupping! If your baby does get unsettled by this new experience, we often find that by you simply standing up and moving slightly further away, they are soon relaxed enough to stay watching the performance. If your baby gets really upset, then you can always take them away from the audience space for a feed or a cuddle and come back in as soon as they're ready.

# BABI, ADERYN A GWENYNEN

# Cwestiynau Cyffredin

## Galla i ddod â babi ieuengach / hŷn neu frawd neu chwaer i'm mabi?

Mae'r sioe hon yn addas i fabanod 6-18 mis oed yn unig. Mae babanod iau na 6 mis yn rhy ifanc i fwynhau'r sioe tra bod plant hŷn yn debygol o dynnu sylw'r babanod. Dyma'r rheswm ein bod yn gosod cyfyngiad oed ar y perfformiadau hyn – fel bod modd i bawb fwynhau'r perfformiadau yn llawn.
Golygir hyn na chaniateir mynediad i blant hŷn (yn cynnwys brodyr a chwiorydd) i'r perfformiadau hyn. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwarchod profiad arbennig y gallwch chi ei rannu gyda'ch babi/babanod.

## Pam fod y sioe ond yn para 20-25 munud?

Mae Sarah a Kevin wedi arbrofi gyda hyd perfformiadau dros y blynyddoedd, a dyma ydy'r hyd perffaith ar gyfer y grŵp oedran yma. Mae ymennydd babi yn dal i ddatblygu a thyfu yn gyflym, ac yn aml mae angen cwsg neu gyfle i orffwys ar ôl profiad synhwyraidd megis Babi, Aderyn a Gwenynen. Bydd cyfle i aros a chwarae gyda theuluoedd eraill yn yr ystafell ar ôl y sioe.

**Beth sy'n gwneud y sioe hon i fabanod yn arbennig?**

Mae gan Sarah Argent a Kevin Lewis sawl blwyddyn o brofiad o gyd-greu sioeau i fabanod. Mae ganddynt enw da yn rhyngwladol am eu gallu i greu sioeau tyner, apelgar i blant ifanc iawn. Maent wedi cydweithio â gwyddonwyr i ddarganfod beth sy'n gwneud i fabanod chwerthin ac wedi datblygu technegau arbennig sy'n sicrhau bod y perfformiadau yn dal sylw babanod ifanc!

## Beth yw trefn y seddi?

Gwyddom fod babanod ifanc yn hoffi llawer o le i symud, ymestyn, bwydo a chropian, ac felly mae babanod (a'u hoedolion) yn eistedd ar fatiau mawr ar y llawr yn ystod y sioe hon. Mae digon o le iddynt ar y mat i symud fel sydd angen.

Rydyn ni hefyd yn cadw niferoedd ein cynulleidfa yn isel, fel bod digon o le gan bawb ac i gadw'r profiad yn gyfforddus i bawb.

## Dw i'n poeni am sut fydd fy mabi yn ymateb!

Rydyn ni'n annog y babanod i ymateb mewn unrhyw ffordd – baldorddi, chwerthin, siarad (os ydyn yn siarad eto!) neu igian! Os ydy'ch babi yn ansicr o'r profiad newydd, yn aml mae sefyll ar eich traed a symud eich babi ychydig yn bellach oddi wrth y perfformiad yn helpu nhw i ymlacio a gwylio'r sioe. Os ydy'ch babi yn cynhyrfu mae croeso i chi fynd allan, a bwydo neu gwtsio'r bychan nes eu bod nhw'n teimlo'n barod i ddod nôl i mewn.

# Tech Specifications
# Manylebau Tech

| | |
|---|---|
| Get In | 1-2 hours to set up at the beginning of the day and then an hour to turn around to re-set in between shows. |
| Arrival of Audience | 15-30mins |
| Performance Duration | 20-25 minutes in length with a 20 minute additional ‘Stay and Play’ session straight after the performance. The stay and play session will take place in the same seating pod. |
| Get Out | 2 hrs |
| Company | 1 Actor, 1 Stage Manager, 1 Audience Host |
| Staging | Flat floor, Indoor or outdoor piece, can work in any studio space |
| Seating | Circular Mats on the floor, additional benches if required |

| | |
|---|---|
| Get In | 1-2 awr i sefydlu ar ddechrau'r dydd ac yna awr i droi rownd i ail-osod rhwng sioeau. |
| Cynulleidfa Cynulleidfa | 15-30 munud |
| Hyd Perfformiad | 20-25 munud o hyd gyda sesiwn ‘Aros a Chwarae’ 20 munud ychwanegol yn syth ar ôl y perfformiad. Bydd y sesiwn aros a chwarae yn digwydd yn yr un pod eistedd. |
| Get Out | 2 awr |
| Cwmni | 1 Actor, 1 Rheolwr Llwyfan, 1 Gwesteiwr Cynulleidfa |
| Llwyfannu | Llawr gwastad, Dan do neu yn yr awyr agored, yn gallu gweithio mewn unrhyw ofod stiwdio |
| Seddi | Matiau cylchol ar y llawr, meinciau ychwanegol os oes angen |



Theatr Iolo

Am fanylion pellach neu i archebu perfformiadau,cysylltwch â:

For further details or to book performances, please contact:

**Aled Lloyd Rees**
**Gweinyddwr Artistig / Artistic Administrator**

029 2061 3782
**aled@theatriolo.com**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government








